DARPL
RHWYDWAITH
EIRIOLAETH

## Beth ydy o?

Mae Rhwydwaith Eiriolaeth DARPL (DAN) yn gymuned Genedlaethol a Byd-eang o arferion ar gyfer sefydliadau dysgu sy'n ymrwymo i arweinyddiaeth wrth-hiliol barhaus drwy wreiddio dull sefydliad sy'n dysgu cyfan o weithio.

Mae DAN yn cefnogi a hwyluso datblygu a rhannu arferion gwrth-hiliol rhagorol. Mae DAN yn ymrwymedig i gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol (ArWAP) gan weithio'n gydweithredol i helpu i wneud Cymru'n wlad wrth-hiliol erbyn 2030 drwy gontinwwm o ddysgu proffesiynol gwrth-hiliol o ansawdd uchel i holl ddarparwyr addysg Cymru.

## Sut fydd fy sefydliad sy'n dysgu'n elwa o fod yn aelod o DAN?

- Bydd y rhwydwaith DARPL yn rhoi cymorth ac arweiniad ar ddatblygu polisïau gan gynnwys y Cynllun Gwella Ysgol / Cynllun Datblygu Ysgol (SIP / SEP).
- Gwahoddiadau blaenoriaeth i gyfleoedd a digwyddiadau DARPL.
- Mynediad at ddigwyddiadau dysgu proffesiynol tymhorol (digwyddiadau penodol, mewn cyd-destun, wedi eu teilwra i fodloni gofynion sefydliadau rhwydwaith DAN o dan arweiniad partneriaid a chydweithredwyr DARPL).
- Gweminarau tymhorol i rannu arferion gorau, trafod pynciau datblygol a chysylltu â sefydliadau sy'n dysgu eraill.
- Stamp DAN i'w arddangos ar eich gwefan, deunydd marchnata cysylltiedig a statws sefydliad sy'n dysgu cyswllt sydd wedi'i restru ar Gampws Rhithiol cenedlaethol a rhyngwladol DARPL.

## Beth fydd yn ddisgwyliedig gan eich sefydliad sy'n dysgu?

Mae DAN yn fframwaith cefnogol a heriol sy'n cynorthwyo sefydliadau sy'n dysgu i sefydlu a gwreiddio arweinyddiaeth wrth-hiliol ac arferion gwrth-hiliol parhaus. Gellir

yn hawdd ymgorffori'r holl gamau gweithredu fydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n dysgu eu cyflawni yng Nghynllun Gwella Ysgol / Nghynllun Datblygu Ysgol er mwyn sicrhau gwelliannau cyfannol ar draws pob agwedd ar y busnes ac i oresgyn unrhyw bryderon am orgyffwrdd / llwyth gwaith ychwanegol.

## Rhagofynion

- Cwblhau'r Proffil DAN a'i anfon i DARPL trwy ebostio darpl@cardiffmet.ac.uk (Bydd angen diweddaru hwn unwaith ar ddechrau tymor 2 ac eto ar ddiwedd y flwyddyn academaidd)
  - Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r tabl ar dudalen 8, gan amlinellu eich camau gweithredu gwrth-hiliol arfaethedig ar gyfer Cam 1 y prosiect. Bydd angen i sefydliadau sy'n dysgu nodi unrhyw waith sydd wedi'i gynllunio a chan bwy (gweler yr enghraifft isod ar gyfer DAN Cam 1, tudalen 7). Hefyd, gall sefydliadau sy'n dysgu nodi pa fath o gymorth gan DARPL yr hoffent ei gael yma, a bydd y gofynion hyn yn cael eu cynnwys yn y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer sefydliadau sy'n dysgu DAN.
- Rhaid i **BOB** aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth fod wedi cwblhau Cyfres Uwch Arweinwyr DARLP neu fynychu diwrnod o ddysgu proffesiynol DARPL yn y cnawd. Byddwn yn derbyn sefydliadau sy'n dysgu sy'n gweithio tuag at hyn gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn academaidd gyntaf.
- Mynychu pob cyfarfod/digwyddiad DAN (1 bob hanner tymor).

1. Yn cyd-fynd ag argymhelliad 10 yn yr Adroddiad Ymchwil Ranbarthol i Ddigwyddiadau Hiliol / Bwlio Hiliol / Adrodd / Diffyg Adrodd mewn Ysgolion ac Argymhellion ar gyfer Ymarfer, Polisi ac Ymchwil (GSBR)

DARPL

RHWYDWAITH

EIRIOLAETH

CHWYLDROADOL

## Cam 1 – Chwyldroadwyr

- Sefydliadau sy'n dysgu i gynnwys targedau penodol ar gyfer arweinyddiaeth wrth-hiliol a dysgu proffesiynol staff cyfan yn eu cynlluniau SIP / SDP. Gellir gwneud hyn drwy weithio'n gydweithredol â DARPL. (erbyn diwedd y flwyddyn academaidd gyntaf o ymgysylltu[2]).
- ***POB*** llywodraethwr i fod wedi cwblhau Cyfres Llywodraethwyr DARPL (erbyn diwedd cam 1)[3].
- Aelod o staff wedi cofrestru ar [Gyfres Arweinyddiaeth Uwch DARPL]() (byddai lle ar restr aros y Gyfres Arweinyddiaeth Uwch hefyd yn dderbyniol).
- Mabwysiadu / Addasu Canllawiau Gwaredu DARPL ar gyfer ymateb i ddatgeliadau / digwyddiadau yn ymwneud â hiliaeth, gyda system adrodd glir a thryloyw wedi'i sefydlu[5]. Nid oes angen gwneud hyn os oes gan eich sefydliad ganllawiau ar hyn mewn polisi ysgrifenedig, ac **ni ddylai** hyn gymryd lle gweithdrefnau cofnodi ac adrodd yr awdurdod lleol.
- Cynhyrchu un Blog / Blog Fideo ar gyfer campws rhithiol DARPL bob blwyddyn, yn dangos eich siwrne wrth-hiliol.
- Y sefydliad sy'n dysgu cyfan i fod wedi ymgysylltu â dysgu proffesiynol gan DARPL a phartneriaid (o leiaf un hanner diwrnod, dim ond dysgu proffesiynol a wnaed ers Medi 2023 a fydd yn dderbyniol)[6].

**Ar ôl cymryd y camau hyn, gall sefydliadau sy'n dysgu symud ymlaen i gam nesaf DAN.**

2. Yn cyd-fynd ag argymhellion 30 & 31 yn yr Adroddiad Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd (CWR), argymhelliad 4 yn 'Cymerwch y Peth o Ddifri: Profiadau Plant o Hiliaeth mewn Ysgolion Uwchradd (RCR)
3. Yn cyd-fynd ag argymhelliad 33 yn CWR ac argymhellion 12 & 13 yn RCR

3b. Mae cyllid Ymarferwyr Addysgol DARPL ar gael i bob lleoliad i helpu i gynhyrchu adnoddau gwrth-hiliaeth a deunyddiau dysgu proffesiynol

4. Yn cyd-fynd ag argymhellion 9 & 13 yn GSBR a nod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol (ArWAP) (tud 47)
5. Yn cyd-fynd ag argymhellion 5 & 17 yn RCR, argymhellion 8, 15 a 16 yn GSBR, a nod ArWAP ar adrodd digwyddiadau hiliol (tud 50)
6. Yn cyd-fynd ag argymhellion 10 & 13 yn GSBR, argymhelliad 34 yn CWR

## Cam 2 - Arloeswyr

- Darparu tystiolaeth o archwiliad o'r cwricwlwm, o adolygiad beirniadol ac o ddatblygu cynlluniau dysgu (SOL) drwy lens wrth-hiliol[7].
- Pob aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gwblhau cyfres Arweinyddiaeth Uwch DARPL.
- Sefydlu cysylltiadau â'r gymuned leol gan gynnwys cyfleoedd i rannu'r neges wrth-hiliol a datblygu cymwyseddau diwylliannol (erbyn diwedd cam 2 DAN)[8].
- Adolygiad polisi llawn drwy lens gwrth-hiliol gyda chymorth sesiynau ymgynghori â thîm DARPL a chymorth gan gymheiriaid o fewn DAN[9].
- Proffil DAN manwl a chynyddol i ddangos cyflawniadau dysgu proffesiynol gwrth-hiliaeth yr holl staff, y cyfleoedd a'r camau gweithredu nesaf.
- Cynhyrchu un blog / blog fideo / astudiaeth achos ar gyfer gwefan DARPL.
- Aelod o staff i fod yn rhan o Grŵp Ymholiad Myfyriol Cymuned Ymarfer DARPL neu grŵp prosiect Datblygu'r Cwricwlwm a mynychu cyfarfodydd a gweithgareddau tymhorol.
- Mynychu holl gyfarfodydd tymhorol DAN.

**Ar ôl cymryd y camau hyn, gall sefydliadau sy'n dysgu symud ymlaen i gam nesaf DAN.**

7 – Yn cyd-fynd ag argymhellion 9 & 18 yn GSBR, argymhelliad 16 yn RCR ac argymhelliad 34 yn CWR
8 – Yn cyd-fynd ag argymhelliad 35 yn CWR ac argymhelliad 17 yn GSBR
9 – Yn cyd-fynd ag argymhelliad 31 yn CWR

## Cam 3 – Ysgolion Arloesi

- Datblygu rhwydwaith cymuned lleol / grŵp llywio, i gynnwys digwyddiadau / cyfnewid gwybodaeth ddiwylliannol[10].
- Datblygu coetsio gan gymheiriaid gan aelodau DAN.
- Proffil DAN manwl a chynyddol i ddangos cyflawniadau dysgu proffesiynol gwrth-hiliaeth yr holl staff, y cyfleoedd a'r camau gweithredu nesaf.
- Aelod o staff i fod yn rhan o Grŵp Ymholiad Myfyriol Cymuned Ymarfer DARPL neu grŵp prosiect Datblygu'r Cwricwlwm a mynychu cyfarfodydd a gweithgareddau tymhorol.
- Cyfrannu at ddigwyddiad DARPL (rhithiol neu yn y cnawd) i drafod y dull ysgol gyfan o weithredu arferion gwrth-hiliol[11].
- Darparu cyfleoedd i rieni / gofalwyr a'r gymuned ehangach gymryd rhan mewn digwyddiadau i gynyddu cydlyniant cymunedol a gwella galluoedd diwylliannol.
- Cyfrannu blog / astudiaeth achos at wefan DARPL.

10 – Yn cyd-fynd ag argymhelliad 35 yn CWR, argymhelliad 17 yn GSBR
11 – Yn cyd-fynd â nod ArWAP (tud. 47)

## Dyddiadau ar gyfer DAN 2025-26 a Chyfleoedd Dysgu Proffesiynol

| Dyddiad | Amser | Digwyddiad – Cenedlaethol |
|---|---|---|
| 30/09/2025 | 13:00-14:30 | DAN HT1a Cenedlaethol |
| | | |
| 01/10/2025 | 10:00-11:30 | DAN HT1b Cenedlaethol |
| 02/10/2025 | 13:00-14:30 | DAN HT1c Cenedlaethol |
| | | |
| 16/10/2025 | 10:00-12:00 | DARPL Llywodraethwyr: Gweithio tuag at fod yn sefydliad gwrth-hiliol |
| 17/11/2025 | 13:00-14:30 | DAN HT2a Rhanbarthol - Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda |
| 18/11/2025 | 13:00-14:30 | DAN HT2b Rhanbarthol - Gwent, Merthyr, Powys a Cheredigion |
| 21/11/2025 | 10:00-11:30 | DAN HT2c Rhanbarthol – De-orllewin Cymru a Gogledd Cymru |
| | | |
| 27/01/2026 | 13:00-14:30 | DAN HT3a Cenedlaethol |
| 29/01/2026 | 10:00-11:30 | DAN HT3b Cenedlaethol |
| 29/01/2026 | 13:00-14:30 | DAN HT3c Cenedlaethol |
| | | |
| 03/02/2025 | 17:00-19:00 | DARPL Llywodraethwyr: Gweithio tuag at fod yn sefydliad gwrth-hiliol |
| | | |
| 24/03/2026 | 13:00-14:30 | DAN HT4a Rhanbarthol - Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda |
| 26/03/2026 | 10:00-11:30 | DAN HT4b Rhanbarthol - Gwent, Merthyr, Powys a Cheredigion |
| 26/03/2026 | 13:00-14:30 | DAN HT4c Rhanbarthol - De-orllewin Cymru a Gogledd Cymru |
| | | |
| 19/05/2026 | 13:00-14:30 | DAN HT5a Cenedlaethol |
| 20/05/2026 | 10:00-11:30 | DAN HT5b Cenedlaethol |
| 20/05/2026 | 13:00-14:30 | DAN HT5c Cenedlaethol |
| | | |
| 08/07/2026 | 9:30-12:00 | Adolygiad Cenedlaethol DAN - Grŵp A |
| 10/07/2026 | 9:30-12:00 | Adolygiad Cenedlaethol DAN - Grŵp B |

## Dolenni i ddarllen pellach

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol

Bwrdd Diogelu Gwent - Ymchwil Ranbarthol i Ddigwyddiadau Hiliol

Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd

Comisiynydd Plant Cymru - 'Cymerwch y Peth o Ddifri: Profiadau Plant o Hiliaeth mewn Ysgolion Uwchradd

## DAN Cam 1 – Proffil Enghreifftiol

'Gellid' cysylltu'r rhain yn uniongyrchol i gynlluniau SIP / SDP ysgolion. Byddai hyn yn cyd-fynd â gwerthoedd craidd DARPL ac yn helpu ysgolion i gyflawni eu hamcanion SIP / SDP ond heb greu mwy o waith gan, yn hytrach, eu cefnogi i gyrraedd targedau.

**Sefydliad sy'n Dysgu:** Ysgol Uwchradd St Andrews, Y Rhws, Bro Morgannwg **[LOGO'R YSGOL]**

**Arweinydd DAN:** Leon Andrews (Dirprwy Bennaeth)

**Cam fy Sefydliad sy'n Dysgu:** Chwyldroadwr [ ] Arloeswr [ ] Ysgolion sy'n Arloesi [ ]

**Athrawon yn rhan o Gymuned Ymarfer DARPL:** Michael Smith

**Athrawon wedi cofrestru ar Gyfres Arweinyddiaeth Uwch DARPL:** Georgina McCarthy

| Amcan: | Gweithredu | Dyddiad dechrau arfaethedig | Dyddiad cwblhau arfaethedig | Arweinydd staff a chyfranwyr | Y Cymorth Dysgu Proffesiynol sydd ei angen gan DARPL | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau'r uwch-dîm/llywodraethwyr i gwblhau Dysgu Proffesiynol ar-lein DARPL. | ○ Terfynau amser wedi eu gosod i'r uwch-dîm gwblhau'r hyfforddiant.<br>○ Wedi argymell yr hyfforddiant gyda'r llywodraethwyr. | 01/09/24<br><br>01/09/24 | 12/10/24<br><br>18/12/24 | Pennaeth | Dolenni i sesiynau galw heibio DARPL fel y gall staff / llywodraethwyr ofyn cwestiynau. | Holl aelodau'r uwch-dim yn deall beth yw bod yn wrth-hiliol ac yn cyfrannu at gefnogi'r ysgol i fod yn wrth-hiliol. |
| Sefydlu gweithgor myfyrwyr gwrth-hiliol. | ○ Gwahodd yr holl fyfyrwyr i fod yn rhan o weithgor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein nod o ddod yn ysgol wrth-hiliol.<br>○ Sicrhau bod cynrychiolaeth fwyafrifol fyd-eang ar draws y grwpiau oed. | 08/09/24<br><br>08/09/24 | 22/09/24 | DHT (Arweinydd AR / EDI)<br><br>DHT a'r Grŵp Arweinyddiaeth Myfyrwyr | Ymgynghori ar sut i drafod â myfyrwyr o gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang heb bechu neu eu trin yn wahanol. | Myfyrwyr o gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod llais ganddynt yn yr ysgol ac yn dangos sgiliau arwain gwell.<br><br>Teimladau gwell o gynefin gan holl gymuned yr ysgol. |
| Gweithredu cynllun strategol ysgol gyfan ar gyfer dysgu proffesiynol gwrth-hiliol i ddatblygu arferion gwrth-hiliol. | ○ Cofrestr LAn a Dba i fod yn rhan o garfan 1 a 2 ar gyfer Cyfres Arweinyddiaeth Uwch DARPL.<br>○ Defnyddio dysgu pwrpasol DAN DARPL i gefnogi datblygu Sefydliad sy'n Dysgu Dyniaethau. | 01/09/24<br>01/01/25 | 04/04/25<br>20/07/25 | LAn<br>DBa | amh<br>amh<br><br>Dysgu Proffesiynol drwy'r cwricwlwm ar gyfer Dyniaethau. | Dau arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad gyda dealltwriaeth ddofn o ymarfer Gwrth-Hiliaeth ac yn gallu ei wreiddio yn y Sefydliad sy'n Dysgu a chyfrannu at weithgareddau ysgol gyfan. |

## DAN Cam 1 – Proffil

**Sefydliad sy'n Dysgu:** **[LOGO'R YSGOL]**

**Arweinydd DAN:**

**Cam fy Sefydliad sy'n Dysgu:** Chwyldroadwr [ ] Arloeswr [ ] Ysgolion sy'n Arloesi [ ]

**Athrawon yn rhan o Gymuned Ymarfer DARPL:**

**Athrawon wedi cofrestru ar Gyfres Arweinyddiaeth Uwch DARPL:**

| Amcan: | Gweithredu | Dyddiad dechrau arfaethedig | Dyddiad cwblhau arfaethedig | Arweinydd staff a chyfranwyr | Y Cymorth Dysgu Proffesiynol sydd ei angen gan DARPL | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |